**Cofnodion Pwyllgor Brys Clwb Mynydda Cymru a gynhaliwyd nos Lun, 17eg Hydref, 2023 drwy gyfrwng Zoom**

**Presennol**: Steve (SW),**(Cadeirydd)** Iolo Roberts (IPR),Dilys (DAP),Richard (RR), Keith (KR), Dewi (DH), Gethin (GR),

Ymddiheuriadau: Raymond, Elen, Iolo ap Gwynn, Dwynwen, Sioned, Ariannell

**1. CANLLAWIAU AR GYFER TEITHIAU PRESWYL**

Adroddwyd

- bod y canllawiau a fabwysiadwyd gan y Pwyllgor yn Ionawr, 2019 yn nodi y dylid ychwanegu tua 10% at gost dybiedig y daith fel bod arian wrth gefn

- cyflwynwyd hyn wedi nifer o deithiau preswyl y Clwb wneud colledion a bu'n rhaid defnyddio arian o goffrau'r Clwb i wneud fyny y diffyg

- gyda'r daith breswyl i Crianlarich yn Chwefror 2024 gan fod prisiau y gwesty wedi cynyddu yn sylweddol ers y tro 1af y bu'r Clwb yno yn 2019, roedd y cynnydd o 10% i gostau'r daith yn golygu cynnydd sylweddol i'r gost i unigolion

- ei fod yn bwysig cadw at y polisi gan nad oes gan y Clwb ddigon o arian yn y coffrau i wneud iawn am unrhyw ddyledion all ddigwydd ar deithiau preswyl.

Cytunwyd

i. gellid cydymffurfio a'r canllawiau yn yr achos yma drwy ychwanegu £2 y pen y noson i gost y daith er mwyn sicrhau fod yna arian wrth gefn
ii. gofyn i KR gysylltu a'r rhai oedd eisoes wedi rhoi eu henwau i lawr i fynychu ac i RR gylchredeg y manylion i weddill yr aelodau pan fydd yn eu hatgoffa am y daith
iii. bydd DAP yn gwneud ad-daliad i'r aelodau hynny oedd eisoes wedi talu am y daith
iv. bydd y Pwyllgor yn ail-edrych ar y canllawiau yn ei gyfarfod arferol nesaf ym mis Ionawr
v. gofyn i DH roi diweddariad ar cinio Nadolig criw y De i'r cyfarfod nesaf.